

Adolygiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Hydref 2022

1. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn rhan annatod o'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Maent yn cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang drwy hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a diogelu'n hiechyd a'n hamgylchedd naturiol drwy ecosystemau iach a gweithredol sy'n cynNAL cydnerthedd ecolegol.
2. Er mai prif nod y Rheoliadau hyn yw lleihau llygredd dŵr, diben y mesurau yw osgoi cyfnewid mathau o lygredd ac atal neu leihau'r lefelau cynyddol o faetholion sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Yn eu plith y mae nitradau, ffosfforws, nwyon tŷ gwydr ac amonia. Drwy ddarparu ar gyfer gweithredu ar lygredd o'r fath, mae'r Rheoliadau hyn yn fodd i gyflawni ystod eang o'r cyfrifoldebau sydd ar Gymru ac mae'n cynnig ymateb cyfannol i heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu amaethyddol.
3. Mae'r mesurau'n seiliedig ar argymhellion am arferion da sydd wedi hen ennill eu plwyf ac maent yn helpu ffermydd i leihau allyriadau niweidiol a gwella'r ffordd y mae'n hadnoddau naturiol gwerthfawr yn cael eu rheoli, gan helpu'r sector amaethyddol i fynd i'r afael â'r difrod i'n hadnoddau naturiol a nodwyd yn yr Adroddiad ar Gyflwr ein Hadnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020. Maent o gymorth hefyd i wrthdroi a lleihau'r effeithiau negyddol y mae amaethyddiaeth yn eu cael ar fioamrywiaeth. Ategir hynny gan becyn cymorth sylweddol i helpu'r sector i addasu yn y ffordd sydd ei hangen er mwyn bodloni'r gofynion.
4. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith wrth ystyried y Rheoliadau pwysig hyn. Rydym yn falch o weld bod y Pwyllgor yn deall yr angen am reoleiddio a pha mor bwysig yw sicrhau ein bod yn rheoleiddio yn y ffordd iawn i ffermwyr ac i'r amgylchedd. O ganlyniad, mae ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor, sydd i'w weld isod, yn derbyn, naill ai'n llawn neu'n rhannol, 9 allan o 10 o argymhellion y Pwyllgor. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i roi'r dystiolaeth briodol i'r aelodau ac i gefnogi'r gwaith o graffu'n effeithiol ar y Rheoliadau pwysig hyn.

Argymhelliad 1.

Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno'r rhanddirymiad a oedd yn caniatáu i ffermydd glaswelltir cymwys daenu hyd at 250 kg/ha o nitrogen.

Ymateb:

Fel mae wedi cael ei gyflwyno gan y Pwyllgor, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu derbyn yr Argymhelliad hwn.

Nid yw'r Rheoliadau presennol erioed wedi cynnwys proses randdirymu. Fel y noda'r Pwyllgor yn ei adroddiad, roedd rhanddirymiad ar gael i'r ffermydd hynny yn yr hen Barthau Perygl Nitradau a oedd yn bodloni meini prawf manwl penodol ac ar ôl iddynt gyflwyno cais llwyddiannus. Roedd y broses honno ar gael i'w defnyddio oherwydd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi cyfle penodol, cyfyngedig o ran amser i'r DU bennu terfyn o hyd at 250kg yr hectar y flwyddyn o dail da byw ar laswelltir mewn Parth Perygl Nitradau. Daeth y penderfyniad hwnnw i ben yn 2016. Daeth gwahoddiadau ar gyfer ceisiadau am randdirymiadau o'r fath i ben yn 2019. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw randdirymiad yn golygu ar unrhyw adeg y ceid defnyddio lefel o faetholion a oedd yn uwch na'r hyn yr oedd ei angen ar gnydau.

O dan y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, rydym wedi nodi a chytuno ar set o gamau gweithredu i ddarparu rhagor o gymorth ar gyfer y sector wrth weithredu'r rheoliadau hyn, gan gynnwys ein bwriad i ymgynghori ar gynllun trwyddedu yn yr hydref. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 5 Hydref 2022 <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cytundeb-cydweithio-llygredd-amaethyddol>.

Argymhelliad 2.

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gymorth yn union sydd wedi bod ar gael i ffermwyr ac a fydd ar gael iddynt er mwyn bodloni gofynion ansawdd dŵr a gofynion amrywiol eraill Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 - yn gymorth ariannol ac yn wasanaethau cynghori. Dylai hyn gynnwys y symiau, y dulliau darparu cyllid a'r amserlenni, gan nodi'r adnoddau a roddir i Cyswllt Ffermio ac a ddarperir ganddo. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ymchwil, y dystiolaeth a'r cyfrifiadau a wnaed i bennu'r lefelau cymorth sydd eu hangen ac a ddarperir.

Ymateb:

Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ar wahân am y pecyn cymorth sylweddol yr ydym yn ei roi i'r sector.

Mae'r Rheoliadau'n seiliedig ar argymhellion am arferion da sydd wedi hen ennill eu plwyf, ac ychydig iawn o effaith y bydd rhai ffermwyr yn eu gweld, yn enwedig y rheini sydd eisoes yn dilyn arferion da, ond rydym wedi cydnabod y bydd angen amser a chymorth ar eraill i wella.

Felly, bydd y cyllid a'r cymorth y bydd ei angen ar fusnesau fferm unigol yn amrywio gan ddibynnu ar lefel yr ymyrraeth sydd ei hangen pan fo angen gwneud newidiadau i fusnes y fferm. Gall yr opsiynau ar gyfer gweithredu amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar y math o fusnes fferm, ei faint, a'i arferion presennol.

Argymhelliad 3.

Dylai'r Gweinidog amlinellu i'r Pwyllgor ei hystyriaethau o'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar y system gynllunio, a sut y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o waith gwella seilwaith sy'n ymwneud â'r rheoliadau hyn, gan gynnwys cyfrannu at ôl-groniad o geisiadau cynllunio neu fwy o densiwn cymunedol, yn cael eu lliniaru.

Ymateb:

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r gofynion o ran seilwaith yn y Rheoliadau yn wahanol iawn i'r llinell sylfaen reoleiddiol sydd eisoes yn bod.

Felly, nid yw'r effeithiau ar y system gynllunio ac ar gymunedau, heblaw am y manteision sy'n gysylltiedig ag amgylchedd mwy diogel ac iachach a chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, yn wahanol iawn i'r sefyllfa bresennol.

Y newid mwyaf y darperir ar ei gyfer gan y Rheoliadau yw rhoi eglurder i fusnesau fferm am y camau y dylid eu cymryd i atal llygredd. Mae llygru wedi bod yn drosedd ers degawdau, ac mae'r Rheoliadau'n rhoi'r gallu i'r corff gorfodi weithredu pan ymgymerir â gweithgareddau sy'n achosi llygredd, yn hytrach na dim ond gweithredu ar ôl i'r llygredd niweidio'r amgylchedd.

Lluniwyd y broses gynllunio mewn ffordd sy'n golygu bod modd asesu a yw datblygiadau'n briodol mewn perthynas â buddiannau cymunedol a buddiannau busnesau, ac mae'r broses yn ystyried materion o'r fath. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod angen gwella'r ffordd yr eir ati i reoli tail.

Argymhelliad 4.

Dylai Gweinidogion Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer yr adnoddau i orfodi'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (a ddisgwylir erbyn mis Hydref 2022). Dylai'r llythyr nodi'r pwyntiau allweddol yn y cytundeb lefel gwasanaeth, gan gynnwys lefelau adnoddau; yr hyn y disgwylir i CNC ei wneud; pa ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl; a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i osod y lefelau yn y cytundeb.

Ymateb:

Derbyn.

Ar ôl cytuno ar y cytundeb lefel gwasanaeth mewn perthynas â'r adnoddau a fydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i orfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd

Amaethyddol) (Cymru) 2021, byddai Llywodraeth Cymru yn hapus i grynhoi pwyntiau allweddol y cytundeb hwnnw.

Argymhelliad 5.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu sut y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati i orfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Ymateb:

Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon mynegi barn am y ffordd o weithredu'r Rheoliadau y byddem yn ei ffafrio, gan gydnabod mai mater i Cyfoeth Naturiol Cymru, y rheoleiddiwr annibynnol, yw penderfyniadau ar sut orfodi'r Rheoliadau, yn unol â'r rhwymedigaethau statudol sydd arno a'i bolisiau a'i weithdrefnau mewnol.

Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau ac mae ffyrdd sefydledig o fynd i'r afael â phryderon. Mae o fudd i Lywodraeth Cymru ac i CNC fod y berthynas a sefydlwyd gyda rhanddeiliaid a ffermwyr yn cael ei chynnal, ond mae angen sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu rhag llygredd amaethyddol.

Argymhelliad 6.

Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fwy penodol i'r Pwyllgor am sut y mae'n ystyried anghenion ffermwyr tenant a ffermydd yr effeithir arnynt gan TB buchol fel rhan o gyfundrefn orfodi CNC, a pha fecanweithiau a ddefnyddir i fonitro ac ymateb i bryderon a godir yn is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru neu drwy ddulliau eraill. Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau blynyddol pellach i'r Pwyllgor ar y materion hyn, y tu allan i gwmpas amserlen yr adolygiad rheoleiddiol.

Ymateb:

Derbyn yn rhannol.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau, yn unol â'r rhwymedigaethau statudol sydd arno a'i bolisiau a'i weithdrefnau mewnol. Mewn sawl achos, nid yw'r Rheoliadau'n wahanol iawn i'r gofynion rheoliadol presennol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â storio slyri a'r camau y byddai angen i ffermydd eu cymryd fel mater o drefn i atal llygredd, yn unol â gofynion rheoliadol ac argymhellion y Cod statudol ar Ymarfer Amaethyddol Da.

Mae prosesau sefydledig ar gyfer mynd i'r afael â gofynion rheoliadol eraill sy'n gysylltiedig â thenantiaethau, gan gynnwys y Rheoliadau sydd eisoes yn bod ar Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol, rheoli daliadau o dan gyfyngiadau TB, a'r Rheoliadau PPN sydd wedi'u dirymu erbyn hyn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn fisol. Cyhoeddir cofnodion y cyfarfod o'r is-grŵp ar-lein ar wefan CNC ac mae'r Fforwm yn gyfle pwysig i drafod unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â llygredd

amaethyddol, nid dim ond rheoleiddio. Bydd unrhyw sylwadau a wneir drwy'r Fforwm, neu mewn unrhyw ffordd arall, am y materion hyn yn cael eu hystyried yn fanwl a, lle y bo hynny'n briodol, byddant yn rhan o'r adolygiad gorfodol y mae'n rhaid ei gynnal bob blwyddyn. Mae sesiynau craffu cyffredinol yn gyfle i'r Pwyllgor gael diweddariadau pellach y tu allan i amserlen yr adolygiad.

Argymhelliad 7.

Er budd ewyllys da a thryloywder, dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu â'r cyrff perthnasol er mwyn coladu a chyhoeddi diweddariad ar statws y 45 o argymhellion yn adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Dylai hefyd nodi, lle y bo'n briodol, sut y mae'r argymhellion hynny wedi'u hystyried yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Ymateb:

Derbyn yn rhannol.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod i gyfarwyddo aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ond mae'n hapus i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor i'r is-grŵp ei ystyried. Yng nghyfarfod yr is-grŵp ym mis Mai, cyn i adroddiad y Pwyllgor gael ei gyhoeddi, bu'r aelodau'n trafod a ddylai'r grŵp ddiweddarar'r adroddiad ac roeddent o blaid neilltuo adnoddau ar gyfer blaenoriaethau diwygiedig. Byddem yn gweithio gyda'r grŵp pe bai'n penderfynu diweddarar'r adroddiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu crynodeb ar wahân o sut mae'r Rheoliadau yn cyflawni'r argymhellion yn adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Argymhelliad 8.

Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw gynigion amgen addas sy'n defnyddio technoleg yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith, neu 'ffermio ar sail calendr'.

Ymateb:

Derbyn yn rhannol.

Bydd unrhyw fesurau amgen a gynigir ac a gyflwynir yn unol â Rheoliad 45 yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, bydd pob cynnig yn cael ei drin yn gyfartal a'i asesu'n briodol. Ni fyddai'n briodol blaenoriaethu cynigion yn seiliedig ar bynciau. Byddwn yn gweithredu ar sail tystiolaeth wrth ystyried yr holl gynigion ar gyfer mesurau amgen.

Bydd datblygiadau ym maes technoleg yn cael eu hystyried hefyd yn ystod yr adolygiad 4 blynedd, lle bo hynny'n briodol. Mae swyddogion yn cael diweddariadau rheolaidd am ddatblygiadau technolegol, a'r rheini'n amrywio o synhwyro o bell i dreulio anaerobig. Bydd y cylch adolygu yn gyfle i ymgorffori unrhyw ddatblygiadau technolegol, ar yr amod eu bod yn sicrhau'r un canlyniad amgylcheddol neu ganlyniad amgylcheddol gwell.

Argymhelliad 9.

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei hystyriaeth o gynigion amgen erbyn dechrau 2023 a diweddariadau blynyddol rheolaidd pellach ar ystyried mesurau amgen, cyn yr adolygiad rheoleiddiol ffurfiol.

Ymateb:

Derbyn yn rhannol.

O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol gwneud datganiad erbyn 1 Ebrill 2023 yn esbonio pa gamau a fydd yn cael eu cymryd pan fydd cynigion ymarferol wedi'u cyflwyno ar gyfer mesurau amgen. Bydd effeithiolrwydd y rheoliadau yn cael ei adolygu bob 4 blynedd, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau. Mae'r amserlen sydd yn y rheoliadau presennol yn sicrhau cydbwysedd rhwng cyfnodau o sefydlogrwydd â rhaglen fonitro fanwl, ac adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd y mesurau.

Mae craffu cyffredinol yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ofyn am ddiweddariadau pellach.

Argymhelliad 10.

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 cyn gynted ag y bo modd, a sicrhau bod y gwaith paratoi i wella'r Rheoliadau, gan gynnwys cyflwyno mesurau amgen, yn dechrau mewn da bryd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wrth adolygu'r Rheoliadau.

Ymateb:

Derbyn.

Y cyfle cyntaf i adolygu'r Rheoliadau fydd ar ôl derbyn cynigion ar gyfer mesurau amgen ac, ar ôl hynny, yr adolygiad 4 blynedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwaith y Pwyllgor wrth adolygu'r Rheoliadau.